Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-10-hydref-2022-html** (https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid-10-hydref-2022-html) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint** (https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid: 10 Hydref 2022

Agenda a chrynodeb o Cyfarfod y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid 10 Hydref 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Tachwedd 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 18 Tachwedd 2022

# Cynnwys

**Agenda** (#section-109836)

**Presennol** (#section-109838)

**Croeso a chyflwyniadau** (#section-109840)

**Cefndir y Bwrdd newydd** (#section-109842)

**Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro – crynodeb o'r argymhellion** (#section-109844)

**Cylch Gorchwyl y Bwrdd** (#section-109846)

**Y Pwyllgor Pobl Ifanc** (#section-109848)

**Ymgysylltu ehangach** (#section-109850)

**Amserlen y cyfarfodydd nesaf** (#section-109852)

# Agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Cefndir y Bwrdd newydd
3. Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro – crynodeb o’r adroddiad terfynol
4. Cylch Gorchwyl y Bwrdd
5. Y Pwyllgor Pobl Ifanc
6. Ymgysylltu ehangach
7. Amserlen y cyfarfodydd nesaf
8. Unrhyw fater arall

# Presennol

## Aelodau

Sharon Lovell, Cadeirydd (SL) - Cadeirydd y Bwrdd

Simon Stewart (SSt) - Aelod o'r Bwrdd

Joanne Sims (JS) - Aelod o'r Bwrdd

Shahinoor Shumon (SSh) - Aelod o'r Bwrdd

Lowri Jones (LJ) - Aelod o'r Bwrdd

Deb Austin (DA) - Aelod o'r Bwrdd

Kelly Harris (KH) - Aelod o'r Bwrdd

Marco Gil-Cervantes (MG) - Aelod o'r Bwrdd

## Ymddiheuriadau

David Williams (DW) - Aelod o'r Bwrdd

Sian Elen Tomos (ST) - Aelod o'r Bwrdd

## Presennol – Llywodraeth Cymru

Hannah Wharf (HW) - Dirprwy Gyfarwyddwr Cymorth i Ddysgwyr

Dyfan Evans (DE) - Pennaeth y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid

Donna Robins (DR) - Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Hayley Jones (HJ) - Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Kirsty Harrington (KHa) - Swyddog Polisi Gwaith Ieuenctid

Dareth Edwards (DEd) - Rheolwr Polisi Gwaith Ieuenctid

# Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd SL y bwrdd newydd i'r cyfarfod bwrdd swyddogol cyntaf. Cyflwynodd aelodau'r bwrdd eu hunain, gan amlinellu eu rolau presennol a'u cysylltiad â gwaith ieuenctid. Nododd SL ei gweledigaeth ar gyfer y Bwrdd a'i rôl allweddol ar gyfer helpu i ddatblygu gwasanaeth gwaith ieuenctid cynaliadwy a symud ymlaen ar yr argymhellion yn adroddiad **Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl**

**Ifanc.** (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/sicrhau-model-cyflawni-cynaliadwy-ar-gyfer-gwasanaethau-gwaith-ieuenctid-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf)

Bydd cynrychiolwyr ar ran y Pwyllgor Pobl Ifanc yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn cynrychioli barn y pwyllgor a phobl ifanc yn ehangach yn unol ag ymrwymiad i sicrhau bod llais pobl ifanc yn parhau'n ganolog i waith y Bwrdd.

### Croeso gan Ddirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru

Dywedodd HW fod y Gweinidogion yn parhau i weld gwaith ieuenctid fel elfen hanfodol o'r teulu addysg ehangach, gan dynnu sylw at ei werth wrth greu mannau diogel i bobl ifanc.

Yn sail i hyn mae dyraniad ariannol o £11.4m dros 3 blynedd.

## Cefndir y Bwrdd newydd

Rhoddodd DE drosolwg o waith y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro sydd wedi arwain at greu'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd.

## Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro – crynodeb o’r argymhellion

Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar bob un o argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, gan amlinellu'r cynnydd hyd yma. Atgoffodd SL aelodau y bydd gwaith pellach i lunio cynllun ar gyfer pob un o’r argymhellion yn flaenoriaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Yn deillio o'r drafodaeth hon, gofynnodd aelodau'r Bwrdd i Swyddogion roi rhagor o fanylion am gwmpas yr adolygiad o gyllid sydd ar fin digwydd, a phapur cryno yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu defnyddio'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddarparu'n ddiweddar i sicrhau cynnig gwaith ieuenctid mwy amrywiol a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Cylch Gorchwyl y Bwrdd

Gosododd SL rôl a chyfrifoldebau'r aelodau, gan gyfeirio at egwyddorion Nolan. Bydd Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ddosbarthu i aelodau gael rhoi eu sylwadau, gyda'r bwriad o gytuno ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer datganiadau o wrthdaro buddiannau posibl.

Amlinellodd swyddogion Llywodraeth Cymru y broses ar gyfer hawlio ffioedd/ costau teithio a chynhaliaeth a’r trefniadau os oes gan aelodau'r Bwrdd unrhyw ymholiadau.

## Y Pwyllgor Pobl Ifanc

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer y Pwyllgor Pobl Ifanc, gan gynnwys y berthynas â'r Urdd, Llamau ac EYST, yn ogystal â’r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau ymgysylltu parhaus â'r Pwyllgor.

Bydd SL yn bresennol yng nghyfarfod preswyl y Pwyllgor ym mis Hydref i drafod y cysylltiad rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor yn fanylach.

Gofynnodd y Bwrdd am fanylion pellach am gyfansoddiad y Pwyllgor a'i brosesau allweddol, gan gynnwys sut mae pobl ifanc yn pleidleisio am gadeirydd.

## Ymgysylltu ehangach

Fe wnaeth SL ailddatgan ei hymrwymiad i'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro drwy Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth. Gofynnwyd i aelodau'r bwrdd ystyried y ffordd orau o drefnu ymgysylltiad ehangach gyda’r sector ar gyfer y cyfnod gweithredu. Bydd hyn yn cael ei drafod a’i gytuno yn y cyfarfod nesaf. Rhoddodd swyddogion adborth o’r gwerthusiad o strwythur y Grwpiau ac unrhyw wersi a ddysgwyd.

## Amserlen y cyfarfodydd nesaf

Pwysleisiodd SL bwysigrwydd cysoni cyfarfodydd Bwrdd y dyfodol gyda

chyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd angen rheoli amseriad y cyfarfodydd yn ofalus hefyd er mwyn galluogi cynrychiolwyr y Pwyllgor i gymryd rhan ac i sicrhau bod gan y Pwyllgor ddigon o gyfle i ystyried a thrafod y pynciau perthnasol.

Bydd amserlen y cyfarfodydd yn cael ei chytuno yn y cyfarfod nesaf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.